**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-RE-0501-17

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Awst 2017

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf ynghylch cychwyn a'r amserlen ar gyfer rhoi adrannau 2 a 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ar waith.

Mae'r adrannau hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio, gweithredu ac adolygu strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra yng Nghymru. Yn ystod gwaith craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Ddeddf, pwysleisiais y byddai angen ymgysylltu'n helaeth ag ystod eang o randdeiliaid drwy gydol cam datblygu'r strategaeth er mwyn iddi gael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Mae'n fwriad gennyf i'r Gorchymyn Cychwyn sy'n ymwneud ag adrannau 2 a 3 o'r Ddeddf gael ei wneud ar y cyfle cyntaf ym mis Hydref 2017 ac i'r strategaeth gael ei chwblhau o fewn amserlen o 18-24 mis. Rwyf yn credu y dylai hyn ganiatáu digon o amser i gynnwys rhanddeiliaid allweddol yn ei datblygiad, ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a dadl ar y gwaith pwysig hwn yn y Siambr.

Rwyf wedi gofyn i'r Prif Swyddog Meddygol, Dr Frank Atherton, arwain y gwaith datblygu, a gaiff ei oruchwylio gan Fwrdd Datblygu'r Strategaeth, gyda chynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid allweddol ac uwch swyddogion polisi o bob rhan o Lywodraethu Cymru. Byddaf yn falch o roi'r newyddion diweddaraf i gydweithwyr wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Yn gywir

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.